

» Darganfod mwy am gyfyngiadau lleol y coronafeirws

Dilynwch y cyngor ar gyfer y coronafeirws (COVID-19)

[Cuddio](#) ✕

[Hafan](#) > [Hysbysiadau](#) > [Holl hysbysiadau](#) >

Datganiad Ysgrifenedig: Cylch Gorchwyl Gweithgor Cymunedau Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd

DATGANIAD CABINET

Datganiad Ysgrifenedig: Cylch Gorchwyl Gweithgor Cymunedau Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd

Kirsty Williams, Y Gweinidog Addysg

Cyhoeddwyd gyntaf:
1 Hydref 2020

Diweddarwyd ddiwethaf:
1 Hydref 2020

Heddiw, rwy'n falch o gael cyhoeddi **Cylch Gorchwyl** Gweithgor y Cwricwlwm Newydd mewn perthynas â Chyfraniadau a Chynefin Cymunedau Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME).

Rhannu'r dudalen hon: [Twitter](#) [Facebook](#) [@](#)

Mae'r Cylch Gorchwyl yn nodi cylch gwaith ac amcanion y Grŵp a'r cerrig milltir a'r prif bethau y gellir eu cyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys adolygu'r adnoddau dysgu sydd ar gael ar hyn o bryd i gefnogi addysgu themâu sy'n ymwneud â chymunedau BAME, eu cyfraniadau a'u profiadau; cyngori ar gomisiynu adnoddau dysgu newydd; ac adolygu ac adrodd ar ddatblygiad proffesiynol i gefnogi addysgu yn y meysydd dysgu hyn.

Bydd y grŵp yn cadw ysbryd canllawiau Cwricwlwm Cymru mewn cof, gan ystyried yr egwyddorion a'r cyfeiriad strategol ac eang sydd eu hangen, gan sicrhau'r hyn sy'n bwysig o ran darparu addysg eang a chytbwys ar draws pob un o'r meysydd dysgu a phrofiad.

Rwy'n disgwyl i'r grŵp adrodd ar eu canfyddiadau cychwynnol, gan gynnwys argymhellion ar gyfer adnoddau newydd ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd i ddod erbyn canol yr hydref, a chyflwyno'r adroddiad terfynol yn nhymor y Gwanwyn 2021.

Rwyf hefyd yn falch o nodi bod aelodau'r Gweithgor, o dan gadeiryddiaeth yr Athro Charlotte Williams OBE, yn adlewyrchu ystod eang o brofiadau ac arbenigeddau. Mae'r Grŵp mewn sefyllfa dda i roi ystyriaeth lawn i hanes, cyfraniadau a phrofiadau cymunedau BAME yn eu gwaith, ac i gyflwyno argymhellion a fydd yn arwain at gomisiynu adnoddau dysgu cadarn ac ystyrion, a chymorth adeiladol i ymarferwyr addysgu gynyddu eu sgiliau yn y maes dysgu hollbwysig hwn.

Cyhoeddwyd gyntaf

1 Hydref 2020

Diweddarwyd ddiwethaf

1 Hydref 2020

[Adrodd am unrhyw beth sy'n bod gyda'r dudalen hon](#)

[Rhannu'r dudalen hon](#)

[Nôl i dop y dudalen](#)

[Cysylltu â ni](#) [Hygyrchedd](#) [Datganiad hawlfraint](#) [Cwcis](#) [Preifatrwydd](#) [Telerau ac amodau](#)